

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	10 Medi 2013
PWNC	Cyfryngau Cymdeithasol
PWRPAS	Cyflwyno canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae chwyldro'n digwydd yn y ffordd rydym yn cyfathrebu. Rydym nawr yn gweld y newid mwyaf erioed yn y modd y mae gwybodaeth yn cael ei greu a'i feddiannu, yn ogystal â chyflymder gallu rhannu gwybodaeth. Arwain hyn at newid yn y modd yr ydym yn byw, yn gweithio, ac o bosib yn y modd yr ydym yn siarad ac yn meddwl.
- 1.2 Defnyddir y term hollgynhwysol cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio at amrediad o ddulliau aml-gyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd. Mae modd eu cyrchu drwy ffôn smart, cyfrifiadur, gliniadur, tabled, neu deledu smart.

2. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: CANLLAW I GYNGHORWYR

- 2.1 Ar 16 Awst 2013, cyhoeddodd Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru ddogfen Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr ar eu gwefan. Gellir gweld copi o'r ddogfen yn Atodiad 1.
- 2.2 Bwriad y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i gynghorwyr sydd yn awyddus i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel dull o rannu gwybodaeth, agor trafodaethau newydd â phobl yn eu cymuned a thu hwnt, ac ennyn diddordeb eu hetholaeth mewn sgwrs dwy ffordd gynhyrchiol. Mae'r canllaw yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfryngau cymdeithasol *Facebook* a *Twitter*.
- 2.3.1 Yn y canllaw, rhestrir nifer o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr, megis bod:
- nifer cynyddol o bobl yn defnyddio *Twitter* a *Facebook* fel y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt, gan arwain at botensial i sefydlu cyfathrebu dwyffordd â phob un ohonynt;
 - yn ddull defnyddiol o ddysgu beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, eu pryderon a'u diddordebau;
 - yn ffordd dda o sicrhau bod etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith a wneir gan gynghorwyr;
 - yn gyfrwng i gael sgwrs gydag amrediad o bobl na fyddai modd cwrdd â hwy'n gorfforol ac nad ydyn nhw'n draddodiadol yn mynd i gwrdd â'u cynrychiolwyr lleol;
 - yn ddull o gyfathrebu ar fyrder, gan allu cael adorth ar unwaith am syniadau a maniffesto er mwyn gallu addasu'r cynigion yn unol â'r farn leol.

3. RHAI YSTYRIAETHAU

3.1 Wrth ystyried cynnwys y ddogfen *Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr* (CLILC), dylid nodi fod ynddi faterion sy'n berthnasol i faes gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd e.e.

;

- y defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn pwyllograu, a'r hyn ddywed y Cyfansoddiad;
- y Gymraeg, a'r arweiniad a roddir gan Gynllun Iaith y Cyngor;
- hyfforddiant o safbwynt hwyluso cynghorwyr i
 - gychwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol
 - i wneud defnydd helaethach o gyfryngau cymdeithasol;
- y defnydd llwyddiannus a wneir eisoes o gyfryngau cymdeithasol gan rai aelodau etholedig yng Ngwynedd fel arfer dda;

a materion sy'n berthnasol i faes gwaith y Pwyllgor Safonau, e.e.

- y côd ymddygiad a goblygiadau cyfreithiol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- camau a ddilynir mewn achosion o gamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Awgrymiadau yn unig yw'r rhain, a gall ystyriaethau pellach ddod i'r amlwg yn sgil trafodaethau'r pwyllgor.

3.2 Ar sail yr ystyriaethau cychwynnol hyn, credir y dylid rhoddi ystyriaeth manylach i'r uchod a chynnwys *Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i gynghorwyr* (CLILC) gan eu haddasu yn benodol i Wynedd a/neu lunio protocol penodol ar gyfer y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr. Credir bod hyn yn waith y byddai'n briodol i'w gyflawni ar y cyd rhwng y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Safonau.

3. ARGYMHELLION

3.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-

- a) argymhell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol
- b) argymhell sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda'r Pwyllgor Safonau i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer Gwynedd (gyda'r union broses ar gyfer cyflawni hynny i'w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor)
- c) enwebu [3] aelod o'r pwyllgor i wasanaethu ar yr is-grwp